

Fersiwn 2, 30 Medi 2021

Dalen Hysbysu Cyfranogwr

Crëwyd y ddogfen hon ar gyfer cyfranogwyr astudiaeth hydredol sydd eisoes yn gyfranogwyr yng Nghydweithrediad Cyswllt Hydredol y DU (UK LLC). Ei diben yw dweud wrthyhych sut y bydd yr UK LLC yn gweithio i sicrhau defnyddio'ch data dim ond yn y ffyrdd y bu i chi gytuno iddynt. Mae rhestr o'r astudiaethau sydd â rhan yn yr UK LLC ar gael ar ein gwefan [About us | UK Longitudinal Linkage Collaboration \(ukllc.ac.uk\)](#)

Dywedwn wrthyhych am y broses y mae eich data'n mynd drwyddi er mwyn cyrraedd yr Amgylchedd Ymchwil y Gall UK LLC Ymddiried Ynddo. Mae Amgylchedd Ymchwil y Gellir Ymddiried Ynddo (AYGYY) yn system gyfrifiadurol ddiogel lle gall ymchwilyr a gymeradwywyd gael mynediad at ddata a'i astudio. Sicrhawn eich bod yn gwybod am eich hawl i ddewis peidio ag ymuno, a sut mae gwneud hynny.

O ganlyniad i'r pandemig firws corona, mae chwe Astudiaeth Greiddiol Genedlaethol yn gweithio i gefnogi ymchwil COVID-19. Fe'u sefydlwyd gan Lywodraeth y DU a'r Prif Gynghorwr Gwyddonol, Syr Patrick Vallance. Bernir bod yr astudiaethau hyn yn flaenoriaeth genedlaethol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn darllen am yr astudiaethau hyn, gallwch glicio'r ddolen hon at wefan Llywodraeth y DU: <https://www.gov.uk/government/publications/the-national-core-studies-programme>

Un o'r rhain yw'r Astudiaeth Greiddiol Iechyd a Llesiant Hydredol COVID-19. Yn rhan o'r astudiaeth hon mae Cydweithrediad Cyswllt Hydredol y DU (UK LLC) wedi'i sefydlu.

Bydd UK LLC yn dwyn ynghyd wybodaeth o gyfranogwyr astudiaeth hydredol a'u cofnodion iechyd a gweinyddol (data COVID-19 GIG, data addysg, data galwedigaeth, er enghraifft). Gwneir hyn i helpu ymchwilyr i weithio iechyd a llesiant wrth inni barhau i fyw drwy'r pandemig firws corona.

Mae astudiaethau hydredol yn gweithio trwy ddethol grŵp o unigolion neu anheddau ac yna casglu data ynghylch y bobl hyn (neu'r bobl sy'n byw yn yr anheddau) tros flynyddoedd lawer, ac weithiau degawdau, yn aml.

Bydd medru astudio cofnodion iechyd yn gymorth i ymchwilyr ymchwilio i sawl gwahanol beth. Pa alwedigaethau, er enghraifft, allai gynyddu perygl dal COVID-19; pam y mae rhai pobl â COVID-19 yn waelach, yn y diwedd, nag eraill; materion iechyd mewn perthynas â COVID-19 fel COVID Tymor Hir; a (a phryd) benderfynodd cyfranogwyr dderbyn y gwahoddiad i'w brechu; a gwybodaeth debyg mewn perthynas ag iechyd.

Bydd yr ymchwil yn ystyried effeithiau ehangach y pandemig firws corona, hefyd. Yn neilltuol, effaith y cyfnodau clo a'r amharu ar drefn feunyddiol y wlad ar iechyd a llesiant pobl.

Gallai'r holl wybodaeth hon fod o gymorth inni ddangos effeithiau COVID-19 a'r cyfnod clo ar lawer agwedd ar iechyd, addysg a chyflogaeth yn awr ac yn y blynyddoedd sy'n canlyn, a thua'r dyfodol.

Bwy sy'n rheoli'r UK LLC?

Rheolir yr UK LLC gan ddau dîm o weithwyr ym Mhrifysgolion Bryste a Chaeredin. Rydym yn cydweithio'n agos â'ch astudiaeth er mwyn sicrhau y storiwn, y trafodwn, y proseswn ac y dinistriwn eich data yn y ffordd gywir. Mae telerau hyn i'w cael mewn cytundeb. Trwy'r cytundeb hwn **mae eich astudiaeth yn parhau i reoli data pa gyfranogwyr a lanlwythir i'r UK LLC, pa ddata a ddarperir neu y cysylltir ag ef, a phwy all ddefnyddio pa ddata at ba ddibenion.**

Mae'r UK LLC yn cymwys arbenigwyr TG o Brifysgol Abertawe, arbenigwyr gwyddor amgylchedd o Brifysgol Caerlŷr, y GIG a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd. Mae'r UK LLC yn cynnwys aelodau'r cyhoedd ym mhob rhan o'i lywodraethiant, ac y mae iddynt swyddogaeth gefnogol a dylanwadol. Dim ond nifer fechan o dimau gweithwyr Prifysgol Bryste a Phrifysgol Abertawe all gael mynediad at y data cysylltiedig. Rhaid i ymchwilwyr a ddymunant fynediad at rannau o'r data wneud cais a chael eu cymeradwyo cyn cael mynediad. Ni roddir y data na phrosesu'r data allan i gwmni masnachol allanol. Y

Sut mae UK LLC yn sicrhau na chewch eich adnabod trwy eich data?

Mae data o'r astudiaethau sydd â rhan yn hyn yn cael ei ddadbersonoleiddio cyn cyrraedd yr Amgylchedd Ymchwil y Gall UK LLC Ymddiried Ynddo. Mae data wedi ei 'ddadbersonoleiddio' yn wybodaeth nad yw'n peri adnabod unigolyn, gan fod manylion megis enw a chyfeiriad wedi'u tynnu allan, a gwybodaeth arall a allai beri eu hadnabod (teitl swydd, er enghraifft) wedi'i newid i fod yn llai penodol. Yn ychwanegol at ddata iechyd a gweinyddol, mae'r UK LLC yn cysylltu â data ynghylch lle mae cyfranogwyr astudiaeth yn byw, er mwyn darparu rhagor o gyd-destun ar gyfer ymchwil: data llygredd awyr a mynediad at fand eang, er enghraifft (ond nid yw'n dal gwybodaeth am gyfeiriadau neu god post cyfranogwyr).

Maen gwrthgyferbyniad â 'llyfrgell fenthyca' lle caniateir cymryd llyfrau ymaith, cynlluniwyd yr UK LLC i fod yn 'llyfrgell ddarllen' ar gyfer ymchwilwyr. Os cymeradwyir eu cais i gael mynediad i'r 'llyfrgell ddarllen', caniateir i ymchwilwyr fynediad at ddetholiadau o ddata o fewn yr Amgylchedd Ymchwil y Gall UK LLC Ymddiried Ynddo. Ni fydd ganddynt fynediad at yr holl ddata - dim ond y data sy'n berthnasol i'w hymchwil. Ni allant lawrlwytho data o'r system. Gall ymchwilwyr gymryd ymaith grynoded o'u canfyddiadau ymchwil, wedi i weithwyr yr UK LLC fwrw golwg arno fel haen ychwanegol o ddiogeled er mwyn sicrhau na ellir adnabod unigolion.

Beth ddylwn ei ddisgwyl fel cyfranogwr mewn astudiaeth gydweithiol?

Daw pob cyfathrebu ynghylch yr UK LLC o'ch astudiaeth chi. Cynlluniwyd yr UK LLC i wneud y gorau o ddata sy'n bodoli eisoes. Os yw eich astudiaeth yn casglu data newydd gennych, efallai y rhennir copiâu o hwn, wedi eu dadbersonoleiddio, â'r UK LLC. Bydd hyn at ddibenion ymchwil a gymeradwyir gan eich astudiaeth chi'n unig.


Ydi fy nata'n cael ei ddal a'i ddefnyddio yn yr UK LLC?

Gan fod yr holl ddata yn yr UK LLC wedi'i ddadbersonoleiddio, ni allwn adnabod unrhyw unigolyn, felly ni allwn gadarnhau data pwy a gynhwysir. Bydd angen i chi gysylltu â'ch astudiaeth er mwyn gwirio hyn. Rhestrir yr holl astudiaeth sydd yn UK LLC yn ein gwefan <https://ukllc.ac.uk/about/> ni.

A allwch ddewis peidio ag ymuno, fel na ddefnyddir eich data yn yr UK LLC?

Gall unrhyw gyfranogwr yn unrhyw un o'r astudiaethau sydd â rhan yn hyn, sy'n dymuno rhoi'r gorau iddi, ar eu rhan eu hunain neu ar ran plentyn, ddewis gwneud hynny. Dylech gysylltu â'ch astudiaeth yn uniongyrchol a rhoi gwybod iddynt. Mae gennych hawl rhoi'r gorau iddi ar unrhyw adeg, heb orfod rhoi rheswm. Fodd bynnag, nid oes modd atal defnyddio'ch data sy'n rhan o ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt eisoes. Os dewiswch roi'r gorau iddi, ni ddechreuir unrhyw ymchwil newydd gan ddefnyddio'ch data chi. Os dewiswch roi'r gorau iddi bydd eich astudiaeth yn rheoli'r broses hon yn unol â'r polisiau a'u trefnau arferol.

Mae'r diagram hwn yn amlinellu sut mae data'n symud o'r astudiaeth i'r Amgylchedd Ymchwil y Gall UK LLC Ymddiried Ynddo:



Mae rhagor o fanylion ynghylch sut mae hyn yn gweithio yn ein polisi preifatrwydd - <https://ukllc.ac.uk/privacy-policy/>

Pwy yn yr UK LLC sydd â mynediad at y data?

Mae tîm bychan o arbenigwyr o Ysgol Feddygol Prifysgol Bryste'n rheoli'r data. Mae arbenigwyr system TG y brifysgol yn rheoli diogeled yr Amgylchedd Ymchwil y Gall UK LLC Ymddiried Ynddo. Rhaid i bob ymchwilydd sy'n gofyn am fynediad at y data yn yr UK LLC fod yn weithwyr ymchwil proffesiynol achrededig sy'n gweithio i sefydliad â'r adnoddau a'r medrau i gynnal ymchwil. Bydd ceisiadau am fynediad at ddata'n mynd i Bwyllgor Mynediad Data'r UK LLC a/neu trwy broses mynediad data'r astudiaeth ei hun. Rhaid i bob un fod yn Ymchwilwyr Achrededig Ystadegau Cenedlaethol: hwn yw'r prif gynllun cenedlaethol sy'n sicrhau bod ymchwilwyr yn ddilys ac yn gwybod sut i ddefnyddio data mewn modd diogel. Rhaid i bob ymchwilydd fod wedi'i leoli yn y DU.

Ymhle y storir y data?

Storir y data ar weinyddion diogel a reolir gan Brifysgol Bryste ac sydd wedi'u lleoli ym Mhrifysgol Abertawe, sydd wedi llunio'r Amgylchedd Ymchwil y Gall UK LLC Ymddiried Ynddo. Mae Prifysgol Abertawe'n brosesyddion data sy'n gweithio tan gyntundeb i Brifysgol Bryste ar gyfer UK LLC. Mae'r system hon wedi'i phrofi ar gyfer y diben hwn.

Sut y defnyddir fy nata?

Darparwn restr gyflawn o bwy sy'n defnyddio data UK LLC, pwy sy'n eu cyflogi, at ba ddiben y maent yn defnyddio'r data, pa ddata y maen nhw'n ei ddefnyddio a beth yw canlyniad eu hymchwiliadau. Rydym yn datblygu tudalen ar ein gwefan i ddangos hyn, ond yn y cyfamser gallwch ofyn am hyn trwy yrru e-bost at info@ukllc.ac.uk.

I bwy fydd yr ymchwilwyr hyn yn gweithio?

Mae mwyafrif ymchwilwyr yn gweithio ar gyfer prifysgolion y DU. Gallai rhai weithio o fewn y GIG neu adrannau eraill y Llywodraeth. Gallai rhai weithio ar gyfer elusennau. Gall cwmnïau masnachol ofyn am fynediad at ddata o fewn yr UK LLC. Rhaid i'r cwmnïau hyn fod yn rhai y mae cynnal ymchwil o safon uchel yn ddiben iddynt, neu'n rhan o'u diben. Ni chymeradwyir y ceisiadau hyn oni all y cwmni ddangos i Bwyllgor Mynediad at Ddata'r UK LLC a'r astudiaethau sydd wedi cyfrannu data y bydd yr ymchwil o fudd i'r cyhoedd. **Ni ellir defnyddio'r data ar unrhyw ddibenion ymelwa.**

Mae rhai astudiaethau wedi dewis peidio â rhannu'u data â chwmnïau masnachol. Yr astudiaeth sydd wastad yn rheoli pwy sydd â mynediad at eu data. Mae'r UK LLC wedi ymrwymo i weithio â'ch astudiaeth chi er mwyn cynnal eich hawliau a chyfrifoldebau ynghylch rhannu data ac ymchwil yn eich astudiaeth.

GWYBODAETH GYFREITHIOL A RhDDC

Pwy sy'n rheoli defnyddio eich data?

Prifysgol Bryste yw 'Rheolwr Data' (yn gyfreithiol gyfrifol am ddiogelu data) yr UK LLC a gall benderfynu, felly, sut y prosesir y data ar gyfer yr UK LLC. Erys y sefydliad sy'n cynnal eich astudiaeth (prifysgol neu ran o'r GIG) yn berchen ac yn Rheolwr Data data'r astudiaeth at bob diben arall. Gellir cysylltu â'r Brifysgol trwy:

Y Swyddog Diogelu Data, Prifysgol Bryste, Beacon House, Queens Road, Bryste BS8 1QU, Y DU

E-bost: data-protection@bristol.ac.uk

Ein sail gyfreithiol: Diogelu Data (Deddf Diogelu Data 2018, RhDDC y DU)

Ein sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth, tan RhDDC y DU a Deddf Diogelu Data 2018, yw:

- 1) Cyflawni gwaith a wneir er budd y cyhoedd, a lle bo ymwneud â gwybodaeth bersonol sensitif.
- 2) Dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol.

Yn ôl diffiniad y RhDDC, 'gwybodaeth bersonol sensitif' yw gwybodaeth sy'n datgelu tras hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, cred grefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth undeb llafur rhywun; a phrosesu data genidol neu fiometrig at ddiben adnabod pwy un union yw unigolyn; a data ynghylch iechyd neu ddata ynghylch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol.

Ar gyfer defnyddio gwybodaeth iechyd (GIG) gyfrinachol

- Yng Nghymru a Lloegr

Ein sail gyfreithiol dros gysylltu gwybodaeth astudiaeth â chofnodion GIG a darparu'r rhain i UK LLC yw trwy ddefnyddio grymoedd rhannu data argyfyngol Rheoliadau Rheoli Gwybodaeth Cleifion 2002. Cynlluniwyd y rhain yn benodol er mwyn caniatáu defnyddio data'n effeithiol mewn argyfyngau fel y pandemig firws corona. Rydym yn gweithio â'ch astudiaeth a'r GIG i symud at ddefnyddio'r drefn sefydledig a ddefnyddir gan eich astudiaeth. Os ydych wedi dweud wrth eich astudiaeth neu'r GIG nad ydych eisiau i'ch cofnodion iechyd gael eu defnyddio mewn ymchwil, yna parchwn hyn ac rydym wedi gofyn i astudiaethau beidio â darparu eich data ar gyfer ei gysylltu â chofnodion iechyd.

- Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

Rydym yn trafod â'r GIG yn yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn sefydlu sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio cofnodion GIG yr Alban a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon.

Ar gyfer defnyddio gwybodaeth weinyddol gyfrinachol

Bydd yr UK LLC yn defnyddio darpariaethau ymchwil Deddf Economi Digidol 2017 i gysylltu â chofnodion gweinyddol (fel y rhai a ddelir gan Gyllid a Thollau EM, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r Adran Addysg a'i chyfatebolion datganoledig). Cawn ddata presennol sydd wedi'i ddadpersonoleiddio o'r ffynonellau hyn o awdurdodau ac asiantaethau ystadegol y DU. Mae'r Ddeddf Economi Digidol yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol gan awdurdodau cyhoeddus at ddibenion ymchwil mewn modd nad yw'n groes i unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd dyledus gan yr awdurdod cyhoeddus i'r unigolyn.

Sail gyfreithiol yr UK LLC tan RhDDC y DU a Deddf Diogelu Data 2018:

- 1) Cyflawni gwaith a wneir er budd y cyhoedd (Erthygl 6 (1) (e) yn y RhDDC); a lle bo ymwneud â gwybodaeth bersonol sensitif.
- 2) Dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol (Erthygl 9 (2) (j) yn unol ag Erthygl 89 (1)). Yn ôl diffiniad y RhDDC, 'gwybodaeth bersonol sensitif' yw gwybodaeth sy'n datgelu tras hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, cred grefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth undeb llafur rhywun; a phrosesu data genidol neu fiometrig

at ddiben adnabod pwy un union yw unigolyn; a data ynghylch iechyd neu ddata ynghylch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r sail gyfreithiol hon yn RhDDC y DU a Deddf Diogelu Data 2018 ar wahân i, ac yn ychwanegol at, weithredoedd a sail gyfreithiol yr astudiaethau cydweithiol sy'n sefydlu sail casglu, prosesu a rhannu eich data at ddibenion ymchwil.

Ar gyfer data astudiaeth

Mae gan astudiaethau sy'n cyfrannu data at yr UK LLC eu sail gyfreithiol eu hunain, hefyd, dros gasglu, prosesu a rhannu data eu cyfranogwyr at ddibenion ymchwil. Yn gyffredinol gellir canfod hon yn yr hysbysiad preifatrwydd ar wefan yr astudiaeth neu yn eu taflenni gwybodaeth ar gyfer cyfranogwyr.

Eich hawliau

Mae UK LLC yn amcanu cyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Anogwn bobl i ddweud wrthym a dybiant fod y modd y casglwn neu y defnyddiwn wybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n anaddas. Croesawem unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r modd y trafodwn eich manylion personol, hefyd. Gallwch yrru e-bost atom yn info@ukllc.ac.uk

Mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) a Deddf Diogelu Data'r DU 2018 yn rhoi i unigolion hawliau ynghylch sut y defnyddir eu data. Mae UK LLC yn cefnogi'r hawliau hyn.

Mae gan y sawl sy'n defnyddio UK LLC neu'n cael mynediad at ein gwefan hawl cael mynediad at eu gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu ei brosesu, ei gywiro, ei ddileu, a'i drosi i fersiwn meddalwedd arall. Am ragor o wybodaeth ynghylch eich hawliau, ymwelwch, os gwelwch yn dda, â thudalennau gwefan Prifysgol Bryste ynghylch prosesu teg am ragor o wybodaeth parthed eich hawliau:

<http://www.bristol.ac.uk/secretary/data-protection/gdpr/rights-of-data-subjects/>

Os hoffech holi am gynnwys y ddogfen hon ac yr hoffech gysylltu ag aelod tîm yn UK LLC, gallwch yrru e-bost at data-protection@bristol.ac.uk

Os hoffech gwyno ynghylch y modd y trafodwn eich data, cysylltwch â Swyddog Hawliau Gwybodaeth y Brifysgol trwy e-bost at data-protection@bristol.ac.uk

Neu trwy bost at:

Y Swyddog Diogelu Data, Prifysgol Bryste, Beacon House, Queens Road, Bryste BS8 1QU, Y DU.

Os ydych eto'n anfodlon, mae gennych hawl cwyno'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn cael penderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaerlleon, SK9 5AF

www.ico.org.uk

Bwriedir i'r Ddalen Hysbysu Cyfranogwr hon fod yn eglur ac yn gryno. Argymhellwn y dylech ddarllen ein polisi preifatrwydd, hefyd, am ragor o wybodaeth: <https://ukllc.ac.uk/privacy-policy/>

Diweddarwyd y Ddalen Hysbysiad Cyfranogwr hon ddiwethaf ar 30 Medi 2021. Adolygir y ddogfen hon yn Chwefror 2022.